**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-02-00(p.1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 27 Ionawr 2000 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | Cyflwyniad gan y Comisiwn er Gwella Iechyd |

**Diben**

1. Diben y cyflwyniad yw hysbysu’r Aelodau am swyddogaeth a gwaith y Comisiwn er Gwella Iechyd. Mae’r papur hwn yn darparu gwybodaeth gefndir am y Comisiwn.

**Cwmpas y cyflwyniad**

2. Bydd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar sut y bydd gwaith y Comisiwn yn effeithio ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS) yng Nghymru. Bydd yn cynnwys Cadeirydd y Comisiwn, y Fonesig Deirdre Hine, y Cyfarwyddwr er Gwella Iechyd, Dr Peter Homa. Ceir manylion am gefndir y ddau yn Atodiad A o’r papur hwn.

**Cyfansoddiad a swyddogaethau’r Comisiwn**

3. Mae’r Comisiwn er Gwella Iechyd yn gorff statudol ar gyfer Cymru a Lloegr a sefydlwyd o dan Ddeddf Iechyd 1999. Cafodd ei sefydlu yn ffurfiol ar 1 Tachwedd 1999 a bydd yn dechrau ar ei raglen waith ar 1 Ebrill 2000. Mae gan y Comisiwn 14 o aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd. Cafodd un o’r aelodau, yr Athro Ian Cameron, ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn gofalu’n benodol am fuddiannau Cymru. Ceir rhestr gyflawn o’r aelodau yn atodiad B.

4. Bydd y Comisiwn yn darparu asesiad annibynnol o’r ymdrechion lleol i sicrhau a gwella ansawdd yn yr NHS, a mynd i’r afael â’r problemau sy’n wynebu gwasanaethau lleol. Bydd hefyd yn monitro ymdrechion yr NHS i fynd i’r afael â’r amrywiadau amhriodol sy’n bodoli o ran safonau gwasanaethau.

5. Prif swyddogaethau’r Comisiwn yw:

- Darparu arweiniad cenedlaethol a lledaenu’r egwyddorion sy’n sail i agenda ansawdd yr NHS;
- Archwilio yn annibynnol y trefniadau sy’n bodoli yn lleol i gefnogi, hyrwyddo a chyflwyno gwasanaethau o ansawdd uchel, a hynny drwy raglen dreigl o adolygiadau lleol;
- Cynnal rhaglen o adolygiadau i fonitro cynnydd y gwaith o roi’r Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol ar waith yn genedlaethol ac yn lleol a’r cyfarwyddyd gan y Sefydliad Cenedlaethol newydd ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol;
- Cynorthwyo’r NHS i nodi ac i fynd i’r afael â phroblemau clinigol difrifol drwy gynnal

ymchwiliadau ac ymyrryd yn ddi-oed.

Bydd y Comisiwn yn canolbwyntio ar faterion clinigol, ond bydd hefyd yn gallu cymryd rhan mewn materion sy'n ymwneud â rheoli os yw'r rhain yn rhan o'r broblem.

**Y Comisiwn a Chynulliad Cenedlaethol Cymru**

6. Bydd y Comisiwn yn gweithio'n agos â'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'i adnoddau ac i sicrhau bod cymorth yng Nghymru yn cael ei dargedu lle mae ei angen fwyaf. Bydd yn gweithredu drwy ddilyn rhaglen waith flynyddol a fydd yn cael ei phennu gan y Cynulliad a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloger. Yn ogystal â'i raglen waith graidd, gall y Cynulliad hefyd ofyn i'r Comisiwn ymchwilio a gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu'n gyflym mewn achosion lle ceir methiant i weithredu neu pan fo angen datrys problemau difrifol yn ddi-oed.

**Sut y bydd y Comisiwn yn gweithredu**

7. Bydd cyrff yr NHS, y Cynulliad a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn gallu gwahodd y Comisiwn i ymchwilio i broblemau. Bydd cleifion ac unigolion eraill hefyd yn rhydd i leisio'u pryderon i'r Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn ymweld â sefydliadau ac yn cydweithio â hwy er mwyn darganfod ffynhonnell y broblem a datblygu atebion cyflym ac effeithiol. Ni fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu neu reoli gwasanaethau.

8. Yn dilyn cynnal adolygiadau a chyn llunio'i adroddiad terfynol bydd y Comisiwn, y corff sy'n cael ei adolygu, Swyddfa Ranbarthol yr NHS (yn Lloegr), y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Awdurdod Iechyd (fel sy'n briodol) yn cytuno ar gynllun i weithredu argymhellion y Comisiwn. Bydd yr adroddiad llawn i'r sefydliad yn cynnwys y prif ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Comisiwn a chrynodeb o'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno. Bydd yr adroddiadau llawn ar gael i'r cyhoedd (byddant yn cael eu hysgrifennu mewn modd a fydd yn osgoi datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol, oni cheir caniatâd yr unigolyn dan sylw).

9. Ni fydd y Comisiwn yn gyfrifol am weithredu'r argymhellion a wnaed i'r corff NHS dan sylw wedi i'r adolygiad gael ei gwblhau. Caiff unrhyw argymhellion eu gweithredu gan y sefydliad, o dan oruchwyliaeth y Cynulliad, Yr Ymddiriedolaeth NHS, a'r Awdurdod Iechyd fel sy'n briodol. Bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu cytuno â'r Comisiwn cyn i'r argymhellion gael eu gweithredu.

**Ariannu**

10. Bydd y Comisiwn yn cael ei ariannu gan ddefnyddio'r arian presennol sydd ar gael ar gyfer gofal heblaw am ofal cleifion. Mae'r costau rhedeg a gymeradwywyd ar gyfer y Comisiwn yn 1999-2000 oddeutu £3 miliwn. Mae'r Cynulliad wedi cytuno i dalu ein siâr Barnett o'r costau, sef £178,000.

**Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth cysylltwch â’r canlynol yn y Cynulliad Cenedlaethol:**

Jane Farleigh, Adran Ansawdd yr NHS (2), ffôn: 02920 826842
Jane Phillips, Adran Ansawdd yr NHS (2), ffôn: 02920 825185

## Atodiad A:  MANYLION BYWGRAFFYDDOL AM GADEIRYDD A CHYFARWYDDWR Y COMISIWN ER GWELLA IECHYD

### Y Fonesig Deirdre Hine, DBE, FFPHM, FRCP

Ymddeolodd y Fonesig Deirdre fel Prif Swyddog Meddygol Cymru ym 1997, yn dilyn cyfnod o saith mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu’n cadeirio

grp ymgynghorol ar y cyd â Phrif Swyddog Meddygol Lloegr a luniodd adroddiad cydnabyddedig ar wasanaethau cansr, sy’n cael ei adnabod erbyn hyn fel Calman-Hine.

Pan oedd yn Gyfarwyddwraig Bron-Brawf Cymru, ffurfiodd ac arweiniodd y Fonesig Deirdre dîm a oedd yn cynnwys radiolegwyr, llawfeddygon, patholegwyr, radiograffyddion, nyrsys, ffisegyddion a staff gweinyddol ymgynghorol i ddarparu gwasanaethau sgrinio’r fron. Bu’n Is-lywydd Gofal Cansr Marie Curie ers 1997, a chafodd ei phenodi yn aelod o’r Comisiwn Archwilio ym 1998, hi yw llywydd etholedig y Gymdeithas Feddygaeth Frenhinol.

### Dr Peter Homa

Cafodd Dr Homa ei secondio ym Mai 1998 o’i rôl fel Prif Weithredwr Ysbyty Brenhinol Caerlyr i fod yn ben ar y Tîm Mynediad Cleifion Cenedlaethol (rhan o Weithrediaeth yr NHS yn Lloegr) er mwyn cynorthwyo â’r gwaith o gyrraedd targedau rhestrau aros y Llywodraeth. Mae wedi sefydlu a datblygu tîm amlddisgyblaethol o arbenigwyr i lunio gwelliannau cynaliadwy mewn ansawdd, mynediad, ac effeithlonrwydd gofal dewisol. Mewn llai na deunaw mis, mae’r tîm wedi cryfhau y broses o reoli rhestrau aros mewn dros 65 o ymddiriedolaethau yng Nghymru a Lloegr, ac wedi arwain 24 o brojectau peilot ar dderbyniadau a drefnwyd.

Mae Dr Homa wedi gwneud enw iddo’i hun am arwain y rhaglen gyntaf ar gyfer holl ysbytai’r wlad a oedd yn ail-lunio gwasanaethau er mwyn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd gofal cleifion. Ar hyn o bryd ef yw Llywydd etholedig y Sefydliad Rheoli Gwasanaethau Iechyd.

## Atodiad B:  AELODAETH Y COMISIWN ER GWELLA IECHYD

Yr aelodau yw:

**Y Fonesig Deirdre Hine** – Cadeirydd

**Janet Beyleveld** – mae ganddi gryn brofiad o wasanaethau'r NHS ar gyfer cleifion a gofalwyr.

**Yr Athro Ian Cameron CBE** – cafodd ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i fod yn gyfrifol yn benodol am fuddiannau Cymru. Ef yw is-ganghellor, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru.

**Dr Sam Everington OBE** – Ymarferwr Cyffredino o Lundain ac un o'r rhai sy'n fodel ar gyfer Canolfannau Byw yn Iach y Llywodraeth, ac aelod o Gyngor y BMA.

**Yr Athro Syr Martin Harris** – is-ganghellor Prifysgol Manceinion a chyn Gadeirydd y Grp Ymgynghorol ar Safonau Clinigol

**Anthony Hewson** – cyn gadeirydd yr elusen genedlaethol SCOPE, a chyn aelod o Gyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol.

**Ann James CBE** – Cadeirydd Unedau Gwasanaeth Plant tan yn ddiweddar, yr elusen genedlaethol fwyaf sy'n gweithio â theuluoedd.

**Yr Athro David Kerr** – Athro Oncoleg Glinigol a Chyfarwyddwr Clinigol y Sefydliad Astudiaethau Cansr, Prifysgol Brimingham.

**Yr Athro Julian Le Grand** – economegydd ac Athro Polisi Cymdeithasol yn y London School of Economics.

**Melinda Letts** – Cadeirydd y Gynghrair Cyflyrau Meddygol Tymor Hir ac mae ganddi gefndir helaeth ym maes elusennau.

**Stephen Moss** – Nyrs cofrestredig a Phrif Weithredwr Dros Dro Canolfan Feddygaeth Queen's, Ysbyty'r Brifysgol, Nottingham.

**Nick Patridge OBE** – Cadeirydd y Defnyddwyr yn Ymchwil yr NHS, sy'n edrych ar wella'r rhan mae'r defnyddiwr yn ei chwarae o ran ymchwil a datblygiad o fewn yr NHS.

**Museji Takolia** – aelod o dîm y Llywodraeth sy'n gweithio tuag at ddulliau o fynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol ac adfywio cymdogaethau tlawd.

**Dr Charles Vincent** – mae'n arbenigo yn bennaf mewn ymchwil i atal digwyddiadau andwyol a rheoli

risg glinigol